


Tro yng nghwmni Pevsner

Mae cyhoeddi cyfrol newydd am Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yng nghyffres enwog Pevsner am adeiladau Cymru yn ddigwyddiad gwerth ei ddatlu. Yma mae un o'r awduron, Julian Orbach, yn gwneud hynny drwy ddilyn taith drwy un o drefi bach y ddwy sir ...

*Y cwad ym Mhrifysgol
Cymru Llanbedr Pont
Steffan, wedi ei ysbrydoli
gan golegau Rhydychen a
Chaergrawnt*



Un o nodweddion arbennig llawlyfrau Pevsner yw'r driniaeth o drefi, gyda'r pwyslais ar eglwysi, capeli ac adeiladau cyhoeddus ac yna'r "tro" sy'n manylu ar y bensaerniaeth a'r dirwedd drefol. O edrych yn fanwl ar Llanbedr Pont Steffan gwelwn sut y mae'r teithiau hyn yn amlygu gwybodaeth newydd – i bobl leol ac ymwelwyr ...

Tyfodd Llanbed lle'r oedd ffyrdd hynafol yn croesi — yr hen ffordd ar hyd glan ogleddol afon Teifi a'r ffordd i fyny o Gaerfyrddin, tros y bont sy'n rhoi ei henw i'r dref. Mae'n debyg mai arglwydd Normanaidd oedd Steffan ac mae twmpath ei gastell i'w weld heddiw ar dir y brifysgol. Sgwâr Harford yw'r man ble mae'r llwybrau hyn yn croesi ac mae'r enw'n cyflwyno teulu bancio o Fryste a wnaeth gyfraniad anferth i'r dref gan ddod â'r brifysgol yma yn 1819, yn y lle cyntaf yn goleg ar gyfer hyfforddi clerigwyr Anglicanaidd.

Daeth y rheilffordd drwy'r dref yn 1866–67, rhan o brosiect David Davies, Llandinam i gysylltu Manceinion â Môr Iwerydd drwy Aberdaugleddau (prosiect na chafodd ei orffen), a bu hynny'n hwb bychan i'r diwydiant adeiladu. Ond fe gymerodd hi tan y ganrif wedyn i'r dref lenwi dwy o'i thair prif stryd.

Ar y Stryd Fawr y cynhaliwyd Ffair Dalis, y ffair geffylau, a'r

Cwmins oedd safle'r farchnad — gan ein hatgoffa mai amaeth oedd asgwrn cefn y dref a hithau'n gysylltiedig â thair stad fawr:

Roedd plastai sylweddol wrth galon bob un o'r ystadau ond dim ond yr ieuengaf, Falcondale, tŷ'r teulu Harford, sydd wedi goroesi. Mae bellach yn westy urddasol.

Gellir gweld adfeilion ail dŷ Ffynnonbedr ychydig i'r dwyrain o'r dref. Roedd y tŷ rhyfeddol hwn, gyda thyrrau ar bob cornel, wedi ei adeiladu ar gyfer Syr Herbert Lloyd ar ôl 1755 a chafodd ddadfeilio ar ôl i'w berchennog treisgar ladd ei hun 1769. Roedd wedi codi arswyd trwy'r sir trwy ei rym yn Ynad Heddwach, Aelod Seneddol a barwnig.

Y trydydd tŷ, Maesyfelin, oedd cartref cenedlaethau cynharach y Lloydiaid. Cafodd Ffynnonbedr ei adeiladu gyda cherrig ohono a dim ond ychydig o furiau'r ardd sydd i'w gweld heddiw y tu ôl i Heol yr Orsaf. Roedd gan y Lloydiaid cynharach hynny enw yr un mor ddrwg a chawsant eu mellithio gan y Ficer Prichard o Lanymddyfri yn nechrau'r ail ganrif ar bymtheg: 'Mellith Duw fo ar Maesyfelin, / Ar bob carreg a phob gwreiddyn ...! Caiff creulondeb y teulu ei gofio o hyd mewn straeon gwerin.

A hithau ar groesfan ffyrdd, daeth Llanbed yn ganolbwynt ar



Neuadd y Dref o tua 1880 — enghraifft gynnar yng Nghymru o adferiad arddull y Frenbines Anne

gyfer Anghydfurfwyr ac mae gan y pedwar prif enwad gapeli yn y dref. Hefyd, ar y cyrion, mae yna gapel Undodaidd sy'n ein hatgoffa fod rhannau uchaf Dyffryn Teifi yn rhan o gadarnle trawiadol i'r enwad yma sy'n cael ei gysylltu fel arfer â'r Oleuedigaeth mewn trefi.

Mae'r brifysgol yn rhan o hanes addysg yn y dref. Roedd

Llanbed yn ddeniadol fel safle ar gyfer y coleg newydd gan fod yno ysgol ramadeg enwog yn barod. Mae'r ysgol gynradd sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd, yr ysgol uwchradd sy'n cael ei moderneiddio ac adeiladau newydd y brifysgol yn dangos fod y stori'n parhau.

Tro yn Llanbed

Yn y brifysgol (I) y mae tro Pevsner yn cychwyn. Dyma'r drydedd brifysgol hynaf yn Lloegr a Chymru, ar ôl Rhydychen a Chaergrawnt, ychydig yn hŷn na Llundain, yn nhref brifysgol leiaf y ddwy wlad.

Mae cwad 1819–22 gan C. R. Cockerell, a fu wedyn yn cynllunio Amgueddfa Ashmole yn Rhydychen a Llyfrgell y Brifysgol yng Nghaergrawnt, yn dilyn patrwm enghreifftiau o Rydychen. Ewch i'r neuadd fwyta, sydd fel y cafodd ei chynllunio gan Cockerell, a rhyfeddych at y capel, a gafodd eil ail-greu yn 1878–79 gan y pensaer o Rydychen, T. G. Jackson. Fe


Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan




Addurniadau moethus capel y brifysgol ar ôl iddo gael ei ail-gynllunio gan T. G. Jackson yn 1878–79 (chwith); cofeb ryfel Syr William Goscombe John (canol); y teras o'r 1830au yn y Stryd Fawr (ar y dde)



Yr Eglwys Babyddol, a godwyd gyda chymorth cyfraniadau gan blant ysgol o Iwerddon



Pibell Ffynnon Harford



Y 'tro' o amgylch Llanbedr

ostyngodd y llawr i lefel y seler er mwyn cynyddu'r uchder ag fe ychwanegodd eisteddleoedd gwyrdd tywyll, coch ac aur mewn arddull Gothig, sy'n drawiadol mewn oes sydd wedi arfer gyda choed pin a staen tywyll. Tu ôl i'r cwad mae twmpath glaswelltog y gaer Normanaidd.

Ger pen gogleddol y campws y mae cofeb ryfel y dref gyda'i filwr efydd (2), gwaith gan gerflunydd gorau Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, Syr William Goscombe John. Oddi yma, mae Heol y Coleg, un o'r tair priif ffordd drwy'r dref, yn arwain yn ôl at Sgwâr Harford, ble mae'r ffyrdd yn cyfarfod, gan basio adeilad cain Swyddfa'r Post (3) (1933) ar y dde.

Teulu'r Harfordiaid, y bancwyr o Gastell Blaise, Bryste, oedd landlordiaid hael y dref gan roi iddi ei chyflenwad dŵr y codwyd Ffynnon Harford o garreg lwyd (4) ar y sgwâr yn 1862 er mwyn dathlu ei gael.

Tu draw i'r sgwâr, i fyny mynedfa gul Heol y Porthmyn y

mae'r Cwmins (5) — sydd bellach yn faes parcio. Roedd unwaith yn gartref i'r farchnad awyr agored. Yma mae Capel Soar (Annibynwyr) (6), (1874), yn codi fel eglwys yn yr Eidal uwchben y tai teras bychain, gyda chynllun yn arddull y Dadeni gan bensaer sydd hyd yma'n anhysbys.

Mae ffordd gul arall yn arwain yn ôl i'r Stryd Fawr; hen safle Ffair Dalis, y ffair geffylau. Dengys hen ffotograffau y stryd yn llawn ceffylau, gwerthwyr a phrynwyr a thorfeydd yn gwyllo'r cyfan.

I'r chwith ac i'r de ble mae'r Stryd Fawr lydan yn crymu, chwiliwch am hen fanc Lloyds o gyfnod mewn arddull Sioraidd hwyr (7) a'r Llew Du (8), gwesty coets fawr; gyda chynllun arbennig o ddeniadol o tua 1835.

Er hynny, Neuadd y Dref (9) ar y llaw dde sy'n codi uwch y dref gyda'i do mawreddog talcennog a'r gromen bren ar ei frig. Dyma anrheg arall gan yr Harfordiaid yn 1880-1, wedi'i greu gan y pensaer o Lundain R. J. Withers, cynllunydd Neuadd y Dref

Gothig Aberteifi. Ond esiampl cynnar yw hwn o adferiad arddull y Frenhines Anne, efallai yr adeilad cyhoeddus cyntaf yn Nghymru i'w adeiladu yn y dull yma. Ceisiwch osgoi edrych ar y ffenestri plastig.

Yn uwch i fyny'r Stryd Fawr mae teras o dri thŷ sy'n deillio o'r 1830au (10) ac mae mynedfa gul ar yr ochr arall yn arwain at Gapel Tabernacl (11) o 1806, un o'r adeiladau capel hynaf yn y ddwy sir. Er nad yw'n cael ei ddefnyddio bellach, mae'n ein hatgoffa o ddechreuadau bychain Anghydfurfaeth. Cafodd ei adael yn 1874 pan symudwyd i Gapel Seilo (12) sy'n fwy crand, gwaith gan bensaer nifer fawr o gapeli, sef Richard Owens o Lerpwl.


Bron gyferbyn, mae'r Ysgol Genedlaethol Gothig (1850) (13) sy'n batrwm manwl o gynllun anghymesur y Canol Oesoedd newydd ac yn enghraifft gynnar i'r rhan yma o Gymru. Fe'i cynlluniwyd gan W.B. Moffatt, cyn bartner Syr George Gilbert Scott, un o brif bensein'r cyfnod.

Gyferbyn ar lethr glas, mae grŵp gwyngalchog pert sy'n cynnwys yr Eglwys Gatholig (14) a Thŷ'r Offeiriad. Fe'i cynlluniwyd yn 1940 gan Thomas Scott ac mae'n esiampl hyfryd o greu llawer o ychydig gyda fflach o liw yn darn crochenwaith sydd yn arddull Eidalaid Della Robbia uwch ben y drws. Ewch i mewn a mwynhau cymhlethdod cynnil y gogoniannau mewnlol: bwa ar ben bwa a dau liw o waith bric. Fe'i



Y Llew Du — 'cynllun arbennig o ddeniadol o tua 1835'

© Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Y gwydr lliw gan Wilhelmina Geddes yn ffenest orllewinol Eglwys Sant Pedr yw un o'r enghreifftiau gorau o'r cyfnod hun yng ngwledydd Prydain

hadeiladwyd gan y sylfaenydd, Malachy Lynch, yn wyneb rhwystrau mawr gydag apêl ariannol i blant ysgol yn Iwerddon. Mae'r adduniadau wedi eu gwneud â llaw, yn y traddodiad Celf a Chrefft.

Y tu ôl, mae eglwys y plwyf ac, ar eich ffordd byddwch yn mynd heibio i'r ysgol ramadeg fechan un llawr sydd yn dyddio'n ôl i 1823 (15). Roedd yr ysgol yma yn enwog iawn ac fe gafodd mab Syr Walter Scott ei anfon yno o Gaeredin i gael ei addysgu gan John Williams. Yn ôl Scott, ef oedd yr athro gorau yn Ewrop. Yn ddiweddarach, Williams oedd rheithor Academi Caeredin.

Mae'r cyfan o eglwys y plwyf Sant Pedr (16) yn dyddio o 1867-70, gwaith Fictoraidd da iawn gan R. J. Withers, a

adeiladwyd gydag arian Harford. Gallwch edmygu'r tŵr grymus a'r rhes o ffenestri olwyn dros yr ystlys. Mae'r tu mewn yn olau-brydferth gyda ffenestri hir i'r gogledd a gwydr lliw o'r 1870au yn arddull yr adfywiad Gothig yn y côr. Mae'r fedyddfaen gron anferth a'r pulpud mewn steil Uwch Fictoraidd sy'n ffafrio ffurf geometrig yn hytrach nag adduniadau.

Gogoniant yr eglwys yw ffenestr y gorllewin – gwydr lliw o'r cyfnod 1938–45 gan Wilhelmina Geddes, aelod o grŵp enwog *An Tur Glaine* (Y Tŷr Gwydr) o Ddylun a oedd wedi symud i Lundain yn 1925. Dyma un o'i gweithiau mwyaf cain, wedi ei wneud yn fuan ar ôl y ffenestr *Te Deum* yng Nghadeirlan Ypres yn 1938, ac un o'r damau gorau

Pevsner — bron yn barod

Y gyfrol yma gan Pevsner yw'r chweched yn y gyfres am adeiladau Cymru ers Powys yn 1979. Bydd y seithfed, ar gyfer Gwynedd a Môn, yn cwblhau'r casgliad yn 2008-9.

Mae'r gyfres Gymreig yn un o bedair ar gyfer gwledydd Prydain ac yn rhan o'r hyn sydd, siŵr o fod, y prosiect tywyslyfrau cyfoes mwyaf uchelgeisiol yn y byd.

Mae'r *Carmarthenshire and Ceredigion* yn dilyn *Dublin a Shropshire* ac fe'i dilynir yn fuan gan *Perth and Kinross* yn y gyfres gyfatebol i'r Alban.

Cyfyd cysylltiadau annisgwyl oherwydd natur rhyngwladol y prosiect. Mae enw E. Trefor

Owen a gynlluniodd dŵr cloc Aberystwyth yn 1857 yn codi eto yn Nulyn yn 1864, yn gynllunydd y Swyddfa Gofnodion Cyhoeddus. Edward Haycock o Swydd Amwythig oedd prif gynllunydd tref Aberaeron yng Ngheredigion sy'n batrwm o'i math. Roedd gan Yr Arglwydd Albanaidd, Iarl I Cawdor, dŷ gwledig ger Caerfyrddin wedi ei gynllunio gan y pensaer Seisnig Syr Jeffrey Wyattville yn debyg i'r adeilad yr oedd hwnnw'n ei adeiladu yn Swydd Amwythig ar gyfer etifedd y cyfoethocaf o'r boneddigion Albanaidd, dug Sutherland.



Yr Ysgol Genedlaethol o 1850

o'i fath o'r cyfnod yng ngwledydd Prydain. Mae'n dangos Crist rhwng Sant Pedr a Sant Andreas, tri ffigwr ar raddfa arwrol, yn gwrthgyferbynnu â'r ffigyrau bychain wrth eu traed.

Yn y fynwent, yng nghornel y

gogledd-orllewin, sylwch ar gerrig beddau'r tlodion a fu farw yn wyrwys Llambled a'r llythrennu gwael sydd amyn nhw.

Bydd taith fer ar droed yn mynd â chi'n ôl at y gofeb ryfel a'r brifysgol. 🗺

Cynnig arbennig

Gall darllenwyr *Etifeddiaeth y Cymry* brynu cyfrol ddiweddaraf y gyfres amd adeiladau Cymru ar bris gostyngol.

Caiff *Carmarthenshire and Ceredigion* gan Thomas Lloyd, Julian Orbach a Richard Scourfield ei chyhoeddi gan Wasg Prifysgol Yale am £29.95, neu £26.95 i'n darllenwyr ni (yn cynnwys postio o fewn y Deyrnas Unedig)

Soniwch am gynnig *Etifeddiaeth y Cymry/Heritage in Wales* wrth ffonio Adran Werthu Prifysgol Yale ar 020 7079 4900, neu wrth ysgrifennu (gan gynnwys sic eic am £26.95 yn daladwy i "Yale University Press") at : The Sales Department, Yale University Press, 47 Bedford Square, LONDON WC1B 3DP.